PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Mackie a/ac McKerlich |

101 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Anfonodd y Cynghorydd Jim Murphy ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

Yn ogystal nodwyd bod y Cynghorydd Frank Jacobsen wedi gadael y Pwyllgor. Byddai'r lle gwag yn cael ei lenwi yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.

102 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni fu unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

103 : CYFLAWNI UCHELGAIS PRIFDDINAS A'R CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-19 (I DDILYN)

Derbyniodd y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd (Rhif Cof 98) ddiweddariad ar gynnydd a chyflwyniad gan yr Arweinydd ar y cynlluniau ar gyfer Cyflawni'r Uchelgais Prifddinas. Mae'r eitem hon yn cynnig y cyfle i'r Pwyllgor graffu cyn penderfynu, a chael y golwg cyntaf ar gynigion y Cabinet ar gyfer cyflawni dyheadau'r polisi'n fanylach, ac i graffu'r broses o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2018/19, a sut caiff y ddau gynllun strategol pwysig hyn eu halinio.
Yn bresennol yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon oedd Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, Paul Orders, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Christine Salter, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaeth, Joseph Reay a Phennaeth Swyddfa'r Cabinet, Dylan Owen.

Gwahoddodd y cadeirydd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, i wneud datganiad agoriadol ac wrth wneud hynny fe wnaeth groesawu mewnbwn pwysig y Pwyllgor Craffu hwn; pennu'r dull o gyflawni blaenoriaethau'r gweinyddiaethau yn yr Uchelgais Prifddinas; gan sicrhau newid trwy fynd i'r afael â hen ffyrdd o weithio; ymwreiddio fframwaith perfformiad a pholisi'r Cyngor; gweithio i gytuno ar dargedau gyda Grŵp Cyflawni a Pherfformiad y Cyngor; a phwysleisio pwysigrwydd darllen y Cynllun Corfforaethol wrth osod y gyllideb fel bod adnoddau wedi'u halinio.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Codwyd y prif faterion a'r arsylwadau canlynol: -

- Atgyfnerthodd yr Aelodau bwysigrwydd alinio cryf rhwng naratif yr uchelgais a'r canlyniadau perfformiad mesuradwy, a phwysigrwydd ymblethu'r rhaglen newid newydd yn rhan o'r dyheadau ac amcanion. Nododd yr Aelodau fod yr Arweinydd yn hyderus bod y mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r aliniadau hyn ar waith ac y bydd y Cynllun Corfforaethol yn nodi'n glir yr amcanion, y gweithredoedd, y targedau a'r mesurau i gyflawni'r Uchelgais Prifddinas.

- Nododd y Pwyllgor y byddai’n chwilio am gysylltiadau cryfach rhwng y Cynllun Llesiant, yr Uchelgais Prifddinas pedair blynedd a’r Cynllun Corfforaethol. Y Pwyllgor fyddai'n monitro yn ystod cyfnod y cynllun gwaith hwn;
- Croesawodd y Cynghorwyr y cynnig ar gyfer adolygiadau gwasanaeth hanfodol a nodon nhw fod gwasanaethau a ffactorau allanol wedi'u dadansoddi'n fanwl cyn dewis y meysydd blaenoriaeth i'w hadolygu.
- Nododd y Pwyllgor fod Grŵp Cyflawni a Pherfformiad y Cabinet wedi’i greu ac y byddai’n croesawu cyswllt cryf â’r grŵp newydd, i atgyfnerthu a chefnogi trefniadau llywodraethu wrth fynd ymlaen.
- Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd y bu camau gweithredu pendant o ran y Fargen Ddinesig, a threfniadau llywodraethu clir.
- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y deg Cyngor yn llunio cynllun busnes yn nodi sut caiff y dyheadau cyfredol eu blaenoriaethu a’u cyflawni. Roedd yr Aelodau'n yn falch o dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd ar y cynnydd pendant sy’n cael ei wneud ar y project lled-ddargludydd.
- Pwysleisiodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y diwylliant sefydliadol yn cofleidio dyheadau digideiddio.
- Roedd Cynghorwyr yn awyddus bod rheolwyr a staff yn parhau i gydweithio i sicrhau bod y dinesydd yn parhau i fod yn rhan ganolog o'r gwaith o ail-ddylunio gwasanaethau'r Cyngor. Roedd cysondeb cyflawni gwasanaethu cwsmeriaid trwy’r sefydliad yn bwysig iawn.
- Ystyriodd y Pwyllgor farn yr Arweinydd fod newid diwylliannau dinesydd a chymdogaeth hefyd yn bwysig, a bod yr agwedd ‘Stryd Gyfan’ yn cael ei hystyried i annog y gymuned hon a dull partneriaeth y cyngor i wella cymdogaethau.
- Eto, pwysleisiodd Cynghorwyr ei bod yn bwysig bod y weinyddiaeth hon yn dadansoddi seilos cyfarwyddiaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwasanaethau cyngor di-dor. Nododd y Pwyllgor fod rheolwyr yn deall buddion gwasanaethau rheng flaen ar y cyd a bod rheoliadau rheoli mwy agored yn cael eu hannog. Teimlwyd mai’r enghraifft o’r ‘Stryd Gyfan’ lle bo’r sefydliad yn cymryd camau i alinio’r holl wasanaethau strydlun fydd yr hyn sy’n profi pa mor effeithiol mae’r Uchelgais Prifddinas yn cael ei gyflawni.
- Mae gan y Pwyllgor bryderon o ran safle'r Cyngor yn rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol o ran cydweithredu rhanbarthol ar wasanaethau a rennir, ac mae’n cefnogi'r farn ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i reoli prif wasanaethau.
- Byddai’r Pwyllgor yn croesawu’r cyfle i weld pecyn cymorth datblygu’r gweithlu, pan fo’n craffu’r pwnc hwn ym mis Mawrth 2018.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Uchelgais Prifddinas yn blaenoriaethu cymunedau gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau, yn enwedig iechyd a chyfle. Fodd bynnag atgoffodd y Pwyllgor yr Arweinydd fod anghenion gan bob cymuned a phwysleisiodd ei bod yn bwysig bod yr Uchelgais Prifddinas yn gweithio ar gyfer y Ddinas gyfan.
- Roedd cynghorwyr yn gwerthfawrogi’n fawr agwedd gynhwysol y Cabinet at ymgysylltu craffu â'r cynlluniau strategol pwysig hyn wrth iddynt gael eu datblygu, a chroesawon nhw gynnig yr Arweinydd i gynnal sesiwn pennu targedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol 2018-19 gyda Chadeiryddion yr holl bwyllgorau craffu ym mis Ionawr 2018.

Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a dderbyniwyd a’r arsylwadau a wnaethpwyd.

PENDERFYNWYD –

1. Bod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd i ddiolch iddo a'r Swyddogion am fynychu'r cyfarfod a chymryd rhan ynddo ac yn cyflwyno'r adborth gan y Pwyllgor;

2. Bod y Pwyllgor yn craffu'r Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2018-19 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2018;

3. Y gofynnir i'r Cadeirydd gyda'r Prif Swyddog Craffu drafod gyda'r Arweinydd a swyddogion sut y gall y Pwyllgor gysylltu â Grŵp Cyflawni a Pherfformiad y Cabinet i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu perfformiad ac osgoi dyblygu wrth fynd ymlaen;

4. Y gofynnir i'r Prif Swyddog Craffu drefnu sesiwn graffu pennu targedau Cynllun Corfforaethol 2018 -19 yn hwyrach ym mis Ionawr gyda Phanel Perfformiad newydd y Pwyllgor i gynnwys Cadeiryddion yr holl Bwyllgorau Craffu.

104 : MONITRO CYLLIDEB 2017-18–MIS 6

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Monitro Cyllideb 2017 – 2018 – Mis 6. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Christine Salter a Phennaeth Cyllid , Ian Allwood.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad ddatganiad yn trafod y prif feysydd a chamau gweithredu sy'n cael eu gwneud i sicrhau y bydd y sefyllfa ariannol gyffredinol yn gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y sefyllfa wedi gwella ers adroddiad Mis 4 ond roedd angen gwneud mwy i fynd i'r afael â gorwariant mewn prif gyfarwyddiaethau ac i nodi os oes angen gwneud newidiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Nododd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor ystyried, yn dilyn y craffu hwn, yr angen i ymgymryd â dadansoddiadau manwl mewn meysydd penodol o'r gyllideb, a gellir rhaglennu'r rhain yn y blaengynllun. Gallai hyn gynnwys craffu cydbwyllgor os yn briodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Codwyd y prif faterion a'r arsylwadau canlynol: -

- Roedd pryderon yn canolbwyntio ar ddiffyg arbedion cyffredinol o £1.782 miliwn, a chynigion arbedion afrealistig.
- Ailadroddodd Cynghorwyr eu pryderon fod cyflawni sefyllfa gytbwys ar y cam hwn ym mlwyddyn y gyllideb yn aml o ganlyniad i reolwyr yn cadw swyddi'n wag. Roedd y Pwyllgor yn daer yn erbyn dull o wneud swyddi gwag yn ganolog i arbedion yn y gyllideb gan y byddai hyn yn cael effaith sylweddol pe bai llawer o swyddi yn parhau i fod yn wag.
- Roedd Cynghorwyr o'r farn y byddid ond yn cyflawni amcanestyniad o gyllideb gytbwys ym mis 6 ar gost ac y byddai dal targedau arbedion heb eu cyflawni i'w cyflawni trwy ddulliau eraill. Derbyniodd y Pwyllgor fod targedau incwm uwch wedi'u gosod ar Gyfarwyddiaethau a bod y gwaith o drawsnewid gwasanaethau a grymuso staff i fod yn entrepreneuraidd yn dod â risgiau, ond ceisiwyd

sicrwydd bod arbedion yn cael eu hasesu’n gadarn gan Gyfarwyddiaethau ac Uwch Reolwyr pan gânt eu cynnig a'u rhoi trwy broses pennu cyllideb.

- Nododd y Pwyllgor er enghraifft fod gan y Gwasanaethau Plant ddiffyg o £782,000 ar arbedion wedi’u cario drosodd o flwyddyn gyllideb 2016/17, sy'n ymwneud â lleoliadau allanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a oedd yn effeithio ar y diffyg cyffredinol. Felly roedd y Pwyllgor am wybod a oedd y gyllideb yn adlewyrchu costau go iawn y gwasanaeth, neu pa un a oes angen ailalinio’r gwasanaeth yn sylweddol. Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wrthi’n gwneud ymchwiliad gorchwyl a gorffen i leoliadau allan o’r sir a fyddai’n llywio’r gwaith o gynllunio cyllideb 2018/19.
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y goblygiadau ar gyfer cyllideb y Cyngor yn cael ei lleihau o bosibl gan Lywodraeth Cymru yn ei gyllideb dreigl 3 blynedd ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd.
- Nododd y Pwyllgor, wrth ystyried Cyflawni’r Uchelgais Prifddinas ynghynt yn y cyfarfod, yr ystyrir y project lled-ddargludydd yn ganlyniad pendant o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd Cynghorwyr sicrwydd fod darparu benthyciad pontio byrdymor i sicrhau buddsoddiad sector preifat sylweddol yn y rhanbarth tan fod cynllun busnes ar waith, yn ateb llif arian dros dro, ac ni fydd goblygiadau cost i'r Cyngor.
- Nododd y Pwyllgor nad oes cyfyngiad ar lefel y ddyled allanol y gallai'r Cyngor fynd iddi ar yr amod ei bod ar gyfer y projectau a chyda achosion busnes cadarn. Byddai diddordeb gan Gynghorwyr yn nifer y projectau y mae’r Cyngor wedi darparu cyfalaf cychwynnol ar eu cyfer a sut bydd Caerdydd yn manteisio ar y projectau hynny.

Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a dderbyniwyd a’r arsylwadau a wnaethpwyd.

PENDERFYNWYD – Bod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i groesawu'r asesiad ym Mis 6 Cyllideb 2017/18 y rhagwelwyd cyllideb gytbwys, ond hefyd yn nodi arsylwadau a phryderon y Pwyllgor er mwyn iddo ymateb iddynt.

## 105 : UNRHYW FUSNES ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

(a) Roedd y Pwyllgor wedi derbyn a nodi gohebiaeth ar e-bost gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn y cyfarfod ar 15 Tachwedd.

(b) Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan y Prif Swyddog Craffu ar y tri Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd wedi cyfarfod yn y tair wythnos flaenorol.

- <u>Rheoli’r Ystâd dan Fodel Landlordiaid Corfforaethol</u> – (Y Cynghorwyr Boyle (Cadeirydd), Mackie, Murphy a McKerlich).
  Roedd sesiwn dystiolaeth gosod cyd-destun a chyfarfod pellach wedi'u cynnal gyda thystiolaeth yn cael ei cheisio ar waith Rheoli Cyfleusterau; sefyllfa Ysgolion a'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw.
- <u>Arweinyddiaeth Cwsmeriaid</u> – (Y Cynghorwyr Bowen-Thompson, Berman, Cunnah a Walker (Cadeirydd)).
  Mae’r grŵp gorchwyl yn parhau i gasglu tystiolaeth a derbyniodd gyflwyniad diddorol iawn gan Admiral, gydag ail gyflwyniad yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr gan British Gas. Cynhelir y cyfarfod hwn yn Nhŷ Wilcox.

- Panel Perfformiad (Y Cynghorwyr Boyle, Bowen-Thompson, Murphy, Mackie, McKerlich a Walker (Cadeirydd)). Roedd y grŵp gorchwyl wedi cyfarfod â'r Pennaeth Perfformiad a'i dîm, i gael dealltwriaeth well o Fframwaith Perfformiad y Cyngor. Cynigiwyd i'r Panel sesiwn yn hwyr ym mis Ionawr i ystyried targedau drafft yn y Cynllun. Bydd y Panel yn canolbwyntio ar feysydd lle bo heriau – Absenoldeb Salwch ac Ailgylchu

106 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 17 Ionawr 2018, yn dechrau am 4.30pm.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 18.45).*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm